# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

## Cofnodion EOC(3)-16-08

**Dyddiad: Dydd Iau, 4 Rhagfyr 2008**
**Amser: 9.30am – 11.30am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Ann Jones, Dyffryn Clwyd (Cadeirydd)
Bethan Jenkins, Gorllewin De Cymru
Nick Ramsay, Mynwy
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mike German, Dwyrain De Cymru

### Swyddogion yn bresennol

Tom Jackson, Clerc
Rita Phillips, Dirprwy Glerc
Steve Boyce, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Denise Rogers, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Bethan Webber, Gwasanaeth y Pwyllgorau

### Eraill yn bresennol

Jocelyn Davies AC, y Dirprwy Weinidog dros Dai, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Brendon Hilbourne, Pennaeth Uned y Sector Preifat, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Jeff Childs, Pennaeth y Gangen Adnewyddu'r Sector Preifat, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Lorraine Barrett AC, Comisiynydd y Cynulliad Cynaliadwy
Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Holly Pembridge, Rheolwr Cydraddoldeb, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Eleanor Burnham. Roedd Mike German yn dirprwyo ar ei rhan.

1.3 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

### Eitem 2: Ymchwiliad i'r gwasanaethau addasu a chynnal a chadw cartrefi ar gyfer pobl hyn yng Nghymru

**Papur: EOC(3)-16-08 (p1)**

### 2.1 Atebodd y Dirprwy Weinidog dros Dai gwestiynau'r pwyllgor. 2

**Camau i'w cymryd:**

y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chyfiawnder Cymdeithasol i ofyn a yw'r argymhellion, a gafodd eu gwneud yn yr adroddiad ar addasiadau tai a gyhoeddwyd yn 2005 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, i newid y fformiwla ariannu ar gyfer grantiau ychwanegol i ddarparu cyfleusterau i'r anabl wedi'u rhoi ar waith.

### Eitem 3: Ystyried y blaenraglen waith

**Papur: EOC(3)-15-08(p.2)**

3.1 Trafododd Aelodau blaenraglen waith y pwyllgor ar gyfer tymor y gwanwyn 2009.

### Camau i'w cymryd:

yr ysgrifenyddiaeth i edrych ar oblygiadau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau pan gaiff ei gadarnhau yng ngwanwyn 2009

y Cadeirydd i ysgrifennu i Ymddiriedolaeth AIDS Cymru yn gofyn a yw pobl ag HIV neu AIDS yn ei chael yn anodd cael mynediad at

wasanaethau iechyd

cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am yr Ymgyrch Cyflog Cyfartal yn y blaenraglen waith ar gyfer tymor y gwanwyn 2009.

## Eitem 4: Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2007-08

Papur: EOC(3)-15-08(p.3) ac Atodiad 1

4.1 Atebodd Lorraine Barrett AC, Claire Clancy a Holly Pembridge gwestiynau a ofynnwyd iddynt gan y pwyllgor.

## Camau i'w cymryd:

Holly Pembridge i ddarparu ystadegau i'r pwyllgor yn nodi oed staff a recriwtiwyd ers sefydlu'r Comisiwn

Holly Pembridge i ddarparu nodyn i'r pwyllgor yn rhoi unrhyw resymau sylfaenol dros y gwahaniaeth rhwng nifer y gweithwyr benywaidd a gwrywaidd mewn swyddi gradd HEO a TS yn y Comisiwn.

Holly Pembridge i ddarparu gwybodaeth i'r pwyllgor am faterion cydraddoldeb sydd ar hyn o bryd yn cael eu hystyried fel rhan o ymarferion caffael Comisiwn y Cynulliad a sut y cânt eu cynnwys mewn contractau.

4.2 Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i Lorraine Barrett AC, Iwan Williams a Holly Pembridge am ddod i'r cyfarfod pwyllgor.

4.3 Cyflwynodd y Cadeirydd Bethan Webber a fydd yn gweithio fel Clerc y pwyllgor ar ôl toriad y Nadolig. Rhoddodd hefyd ddiolch i Tom Jackson am ei waith.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Tachwedd 2008**